# CYNLLUN

# DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH

# CYNGOR GWYNEDD 2017-19

**Cynnwys** **2**


**Cyflwyniad** **3**

**Bioamrywiaeth Gwynedd** **4**
Deddfwriaeth 5
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 5
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 7
- Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth 7
- Fframwaith Cyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RHGAN) 7
- Cynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn yng Nghymru 7
- Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 7
- Cynllun Adfer Natur Cymru 8

**Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd** **9**
**Camau Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth** **10**
**Pencampwr Cefn Gwlad , Aelodau'r Cyngor** **10**

**Pob Adran** **11**

**Gwasanaeth Dysgu a Datblygu** **13**
Cefnogaeth Gorfforaethol 13

**Addysg** **14**
Ysgolion 14

**Oedolion, Iechyd a Llesiant** **15**

**Plant a Chefnogi Teuluoedd** **16**

**Economi a Chymuned** **17**
Uned Forwrol a Pharciau Gwledig 17

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol** **18**
Prosiect Trefi Taclus 18
Uned Wastraff ac Ailgylchu 18
**Yr Amgylchedd** **19**
Uned Eiddo 19
Uned Trafnidiaeth Integredig 19
Tîm Bioamrywiaeth 20
Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau 23
Uned Cefn Gwlad 24
Uned Rheoli Datblygu 25
Uned Polisi Cynllunio 26
Uned Iechyd yr Amgylchedd 27
Uned Cadwraeth Ynni 28

**YGC/Ymgynghoriaeth** **30**

1. **CYFLWYNIAD**

2. Cyhoeddir y cynllun hwn fel rhan o ymrwymiad cyfreithiol Cyngor Gwynedd, fel y nodir yn Neddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Deddf yr Amgylchedd yn ychwanegu at ddyletswydd deddf flaenorol Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ar awdurdodau lleol sy'n gofyn eu bod wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yng Nghymru gan geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' ble maent yn gallu drwy weithredu eu swyddogaethau. Drwy wneud hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'. Mae'r ddyletswydd yma'n gymwys i'r holl awdurdodau cyhoeddus fel Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol.

3. Nod Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yw:
4. Amlinellu pam fod bioamrywiaeth Gwynedd mor bwysig
5. Esbonio cefndir deddfwriaethol y cynllun
6. Beth sydd ei angen gan Awdurdodau Cyhoeddus i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd yma
7. Sarnau Nodi'r Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys camau gweithredu cyfredol y Cyngor ar gyfer bioamrywiaeth a'r camau arfaethedig yn 2017-19.

8. **BIOAMRYWIAETH GWYNEDD**

9. Mae cyfoeth o fywyd gwyllt ac amrywiaeth helaeth o gynefinoedd yng Ngwynedd. Mae lonydd cul a chloddiau nodedig yn nodweddiadol o arfordir hardd Pen Llŷn, ynghyd â'r clogwyni meddal a'r traethau tywod. Mewn cyferbyniad llwyr, mae ucheldiroedd amlwg Eryri, sy'n ein harwain i lawr at ddyffrynnoedd glas a gweddillion coetiroedd hynafol yr un mor werthfawr.

10. Mae ein bywyd morol yn gyfoeth o anifeiliaid, gan gynnwys cwrelau meddal, milflodau'r môr, pysgod, octopysau a chrancod sy'n byw ar greigresi a gwely'r môr ein harfordir. Mae llain arfordirol a chwareli llechi segur Gwynedd yn gynefinoedd i'r frân goesgoch, y rhywogaeth brinnaf o frân ym Mhrydain. Mae tua hanner poblogaeth y frân goesgoch yng Nghymru yn nythu yng Ngwynedd (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri). Mae Pen Llŷn, lle credir bod niferoedd mincod yn gymharol isel, yn ardal bwysig i lygod pengrwn y dŵr. Mae naw rhywogaeth o ystlumod yng Ngwynedd, gan gynnwys ystlumod pedol lleiaf, sydd mewn perygl difrifol, sydd wedi diflannu o'r rhan fwyaf o'r cadwyni gogleddol yn Ewrop. Nid oes unrhyw syndod fod ymwelwyr yn heidio i'r ardal yn eu miloedd yn ystod y flwyddyn, gan fynd i'r wlad i ryfeddu ar ein bywyd gwyllt a'r tirlun godidog, neu i 'ddianc o'r byd a'i bethau'.

11. Er hynny, nid yw ein tirweddau anhygoel a'r amrywiaeth eang o fywyd gwyllt yn ddiogel. O Fôn i Fynwy, ac ar draws y byd, mae bywyd gwyllt dan fygythiad oherwydd bywyd modern. Rhai o'r bygythiadau yw taflu gwastraff i gynefinoedd bregus; datblygiadau

newydd fel ffyrdd, tai a siopau ar gyfer y boblogaeth gynyddol; newidiadau mewn amaethu; ac efallai diffyg parch i rywbeth yr ydym i gyd yn ei gymryd yn ganiataol.

12. Er mwyn caniatáu i'n plant etifeddu a mwynhau ased mwyaf gwerthfawr Gwynedd mae'n rhaid i ni gyd gymryd peth cyfrifoldeb am les ein bioamrywiaeth gan chwarae rhan fach mewn cadwraeth. Y ddau brif ddiwydiant yng Ngwynedd yw amaethyddiaeth a thwristiaeth, ac mae gan y ddau gyswllt agos gyda'r amgylchedd. Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo economi leol iach gan hefyd warchod cyfoeth ysblennydd bywyd gwyllt lleol.

13. Cyhoeddwyd Cynllun Natur Gwynedd yn 2005 (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gwynedd) a'i nod oedd darparu ffordd o atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy gamau gweithredu ac ymdrechion y bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Nod Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd (2017) yw adeiladu ar lwyddiant Cynllun Natur Gwynedd drwy ddefnyddio dull mwy holistig ar draws y Cyngor. Mae'r dirwasgiad diweddar yn y DU a Brecsit yn creu heriau newydd i gynnal a gwella ein bioamrywiaeth. Felly, rydym angen sicrhau yn fwy nag erioed ein bod yn blaenoriaethu cadwraeth bywyd gwyllt i'r cenedlaethau a ddaw i gynnal cymunedau, amgylchedd ac economi iach yn y dyfodol.

## 14. DEDDFWRIAETH


### 15. **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

16. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a restrir ynddi i ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

### 17. **Nodau llesiant**

18. Dengys y saith nod llesiant y math o Gymru yr ydym eisiau ei gweld. Gyda’i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd i’r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i ymgyrraedd ati drwy weithio gyda phobl a chymunedau. Casgliad o amcanion ydynt; noda’r Ddeddf yn glir bod raid i’r cyrff cyhoeddus gyflawni pob amcan, nid un neu ddau yn unig. Ystyr datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf yw’r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu

cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.



19. **Amcanion Llesiant y Cyngor**

20. Mi fydd gwaith dydd i ddydd y Cyngor a'r blaenoriaethau gwella sydd wedi eu hadnabod yng Nghynllun y Cyngor 2018-2023 yn cyfrannu tuag at yr amcanion isod

21. Ein hamcanion llesiant ar gyfer yw sicrhau fod trigolion Gwynedd yn –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

22. **Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy**

23. Mae'r Ddeddf wedi pennu 'egwyddor datblygiad cynaliadwy' er mwyn dweud wrth sefydliadau sut i gyflawni eu dyletswydd dan y Ddeddf. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Cynlluniwyd y dulliau gweithio i helpu cyrff cyhoeddus i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy.



24. **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

25. Lluniwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i ychwanegu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth reoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r dull ecosystem mewn statud drwy gyfres o egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol (RHGAN), a seiliwyd ar y 12 egwyddor (egwyddorion Dull Ecosystem) yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol (CAB).

26. **Fframwaith Cyflawni Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol yn (RhGAN)**

27. Mae'r fframwaith gyflawni RHGAN yn fframwaith rhyng-gysylltiol a gyflawnir drwy Ddeddf yr Amgylchedd a chyhoeddi ac adolygu'r isod:

*28.* **Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol** (ACAN) - wedi ei gynhyrchu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), bydd yn adrodd ar statws adnoddau naturiol Cymru ac mae'n greiddiol i'r

29. **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol** (PANC) a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru sy'n gosod allan y blaenoriaethau i reoli cynaliadwy o adnoddau naturiol yn genedlaethol. Caiff blaenoriaethau'r PANC eu cyflawni ar lefel leol drwy

30. **Ddatganiadau Ardal** a gynhyrchir gan CNC. Dylai'r rhain gynnwys cydweithio lleol drwy bartneriaethau lleol.

31. **Cynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn yng Nghymru**

32. Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr i ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Bydd rhestr newydd (rhestr Adran 7) o rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth uchel yng Nghymru yn cymryd lle'r rhestr bresennol o rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd uchel a nodwyd dan Adran 42 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (ANChG)

## 33. CYDYMFFURFIO Â'R DDYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH A CHYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU

34. Mae'r ddyletswydd newydd yma dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd yn disodli'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn Neddf ANCHG) oedd yn gofyn fod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi sylw i gadwraeth bioamrywiaeth. Mae Deddf yr Amgylchedd yn ychwanegu at ddyletswydd gyfredol Deddf ANCHG) sy'n gofyn fod pob awdurdod lleol wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yng Nghymru, yn ceisio:

35. **"Cynnal a gwella bioamrywiaeth" cyhyd â bod hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. *Wrth wneud hynny, bydd rhaid hefyd i gyrff cyhoeddus geisio 'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.***

36. Mae dyletswydd adrodd newydd yn galluogi awdurdodau lleol i adrodd ar y camau gweithredu a gymerwyd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau a hefyd pa gamau sydd wedi eu cymryd i ymgorffori mesurau bioamrywiaeth mewn meysydd eraill polisi, strategaethau neu fentrau. Mae isadran 6(5) yn gofyn fod awdurdodau cyhoeddus wrth gydymffurfio a'r ddyletswydd yn rhoi sylw i'r gyfres o organebau byw a mathau o gynefinoedd a gyhoeddwyd dan Adran7, Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (ACAN ac unrhyw Ddatganiad Ardal.

37. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r dystiolaeth berthnasol fel sydd angen dan y Ddeddf, a bydd gofyn iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun ar sut maent yn bwriadu cydymffurfio gyda'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus hyn hefyd adolygu eu blaen-gynlluniau yng ngoleuni canfyddiadau eu hadroddiad ar eu camau gweithredu.

38. Y bwriad yw llunio'r cynllun yn ystod y flwyddyn gyntaf y daw'r Ddeddf i rym (Mai 2016 - Mai 2017). Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar gydymffurfio gyda'r ddyletswydd erbyn 2019, ac yna bob tair blynedd. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd adolygu eu blaen-gynlluniau yng ngoleuni canfyddiadau eu hadroddiad ar eu camau gweithredu.

39. **Cynllun Adfer Natur Cymru**

40. Mae Cynllun Adfer Natur Cymru (CANC) yn pennu sut bydd Cymru yn mynd i'r afael â Chynllun Strategol Bioamrywiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CAB). Lluniwyd y CANC gan Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru, gyda'r aelodau yn cynrychioli rheolwyr tir a môr, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol, awdurdodau lleol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Defnyddir yr amcanion yma i adnabod ac i fwrw ymlaen a gweithredu yng Nghyngor Gwynedd i gwrdd â'r Ddyletswydd.

41. Amcanion y CANC yw:
42. Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel
43. Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli
44. Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd
45. Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
46. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro

47. Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth i'w gyflenwi

48. **CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH CYNGOR GWYNEDD**

49. Lluniwyd y cynllun hwn i fodloni ymrwymiad cyfreithiol Cyngor Gwynedd i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae wedi ei grynhoi isod:

50. Dyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau uwch, sy'n disodli'r ddyletswydd bresennol dan Ddeddf ANCHG). Awdurdodau Cyhoeddus **"rhaid iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyhyd ag y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth wneud hynny byddant hefyd yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau".**

51. Er mwyn cynorthwyo i gydymffurfio gyda'r dyletswyddau newydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi blaengynllun ar sut maent yn bwriadu cydymffurfio gyda'r ddyletswydd newydd

52. Rhaid i dystiolaeth berthnasol gynnwys rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau, SoNaRR ac unrhyw Ddatganiad Ardal perthnasol.

53. Dylai ystyriaeth bioamrywiaeth gael ei wreiddio yn eu cynlluniau busnes gan gynnwys polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau yn ogystal â gweithgareddau dydd i ddydd.

54. Mae'r Cynllun Adfer Natur yn cynnwys chwech o amcanion i helpu datblygu camau bioamrywiaeth

55. Dylid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf erbyn Mai 2017 gyda'r adroddiad cyntaf ar gydymffurfio gyda'r ddyletswydd erbyn 2019.

56. Efallai y bydd angen Blaen-gynlluniau neu Gynlluniau Dyletswydd Bioamrywiaeth fel rhan o unrhyw gyflwyniad i Lywodraeth Cymru am arian a dylid hefyd eu cysylltu gyda nodau perthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

57. Mae'r Camau Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth a ganlyn yn cynnwys camau gweithredu presennol Cyngor Gwynedd i gynnal bioamrywiaeth ar draws yr holl Adrannau yn ôl cyfyngiadau presennol cyllidebau, adnoddau a chapasiti o ganlyniad i'r Argyfwng Ariannol

58. Cafodd camau gweithredu yn y dyfodol hefyd eu cynnwys i ddangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu cwrdd â'r ddyletswydd uwch newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Caiff y camau hyn eu monitro gan yr Adran berthnasol yn ystod y ddwy flynedd nesaf i adolygu eu cynnydd a'u haddasu fel bo'r angen. Bydd y Tîm Bioamrywiaeth yn gyfrifol am goladu canlyniadau'r camau gweithredu yma i lunio'r adroddiad yn 2019.

59. Er mwyn llywio'r gweithredu i gydymffurfio â'r ddyletswydd mae'r camau gweithredu wedi eu dosbarthu dan amcanion perthnasol y Cynllun Adfer Cenedlaethol (CANC).

60. **CAMAU GWEITHREDU DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH**

## Pencampwr Cefn Gwlad, Aelodau Cyngor

| Amcan Cynllun Adfer Natur Cymru (CANC) | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 6 Cynllun Adfer Natur: Sefydlu fframwaith lywodraethu yn ei lle a chymorth i'w chyflenwi** | • Aelod Etholedig o'r Cygor yn Bencampwr Bioamrywiaeth ers 2008 | • Ethol aelod o'r Cyngor yn Bencampwr Cefn Gwlad<br>• Codi ymwybyddiaeth am gydymffurfio â’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth newydd<br>• Mabwysiadu a hyrwyddo'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd |

## Pob Adran

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1 Cynllun Adfer Natur: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | **Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Deddf yr Amgylchedd: Rhan 6**<br>• Cynhaliwyd gweithdai/cyfarfodydd blaenorol i godi ymwybyddiaeth am Ddeddf ANCHG) ar draws yr Adrannau<br>• Yr holl Adrannau wedi cael gwybod am Ddyletswydd Bioamrywiaeth newydd 2016<br>• Gofynnwyd i'r holl adrannau baratoi camau gweithredu ar sut maent yn cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth<br>• Ymgynghori gyda'r holl adrannau ar y camau gweithredu cyfredol ac arfaethedig yn 2017-19. | • Bydd yr holl Adrannau yn gyfrifol am fonitro eu camau gweithredu dros y ddwy flynedd nesaf gan adrodd ar eu cynnydd i'r adolygiad yn 2019 |
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (ACAN<br>• Adolygu'r adroddiad ac adnabod materion allweddol i Wynedd | • Adrannau perthnasol i fwydo mewn i'r Datganiadau Ardal |
| **Amcan 5 Cynllun Adfer Natur: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro** | • Bwydo mewn i ddangosyddion bioamrywiaeth Cymru ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - nod Cymru | • Adolygu pa mor effeithiol mae Cyngor Gwynedd yn perfformio yn erbyn nod 'Cymru Gydnerth' |

| | | |
|---|---|---|
| | Gydnerth | |
| **Amcan 6 Cynllun Adfer Natur: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth i'w gyflenwi** | • Mynychodd Swyddogion y Cyngor weithdy CNC yn Nant Gwrtheyrn yn 2016<br>• Cyfarfod gydag Ecolegwyr ALl a CNC i drafod y ffordd ymlaen | • Bwydo i'r broses Datganiad Ardal |
| **Amcan 6 Cynllun Adfer Natur: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth i'w gyflenwi** | Cynllun Llesiant Gwynedd<br>• Cynllun Llesiant Drafft wedi ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy’n seiliedig ar yr asesiadau.<br>Canlyniadau yn cynnwys: Pobl Gwynedd yn dweud bod<br>• Angen gwarchod yr amgylchedd<br>• Angen gwella edrychiad y strydoedd<br>• Cynyddu cyfraddau ail-gylchu<br>• Sicrhau nad yw datblygiadau yn amharu / cael effaith ar yr amgylchedd | • Ymgynghoriad pellach mwy manwl yn mynd yn ei flaen er mwyn bwydo i mewn ymhellach i’r Cynllun<br>• Dylai'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth fwydo i'r Cynllun Llesiant (Nod Cymru Gydnerth) |
| **Amcan 6 Cynllun Adfer Natur: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth i'w gyflenwi** | • Casglu gwybodaeth ar yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth i'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth ar draws Adrannau Cyngor Gwynedd | • Parhau i goladu gwybodaeth ac adrodd ar weithgareddau bioamrywiaeth gan gynnwys opsiynau uwch ble fo'n bosib.<br>• Dylai cynnal a gwella bioamrywiaeth gael ei wreiddio yn yr holl gynlluniau busnes gan gynnwys polisïau, cynlluniau, rhaglenni a |

| | | |
|---|---|---|
| | | phrosiectau yn ogystal â gweithgareddau bob dydd. |

## Gwasanaeth Dysgu a Datblygu

## Cefnogaeth Gorfforaethol

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | • Staff y Cyngor - Holiadur CETIS ar-lein ar fioamrywiaeth | • Staff y Cyngor - diweddaru holiadur CETIS i gynnwys Deddf yr Amgylchedd 2016 a dosbarthu holiadur ar-lein |
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | **Polisi Caffael Cynaliadwy 2015.** Dylai nwyddau / gwasanaethau a brynir gael yr effaith leiaf niweidiol ar yr amgylchedd; ystyried costau oes gyfan y nwyddau a brynir, cyfleoedd ailgylchu / amgen a chyfleoedd i leihau gwastraff. Mae hyn hefyd yn cynnwys gofyn i'r farchnad gyflenwi ynghylch eu cyfrifoldebau amgylcheddol eu hunain, gan hefyd holi mewn dogfennau tendro ynghylch pa gamau maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â ffactorau amgylcheddol. | Parhau i integreiddio Polisi Caffael Cynaliadwy Gwynedd ar draws holl Adrannau'r Awdurdod |

# Addysg

## Ysgolion

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | • Cymryd rhan yn rhaglen Ysgolion-Eco<br>• Cynnwys Bioamrywiaeth yn y cwricwlwm<br>• Ymweliadau â Gwarchodfeydd Natur, cynefinoedd a thirweddau<br>• Gweithgareddau - Arolwg Adar yr Ardd RSPB, garddio bywyd gwyllt<br>• Ymweliadau gan swyddogion e.e. RSPB, Wardeniaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Ecolegwyr ALl<br>• Ail-ddefnyddio/Lleihau/Ailgylchu | • Parhau i annog ysgolion i gymryd rhan yn rhaglen Ysgolion-Eco<br>• Sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnwys bioamrywiaeth<br>• Annog ymweliadau â safleoedd cadwraeth natur a sgyrsiau gan weithwyr yn y maes |

# Oedolion, Iechyd a Llesiant

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | **Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd 2017-18** Helpu pobl hŷn Gwynedd i fyw bywyd llawn ac annibynnol:<br>• Cadw'n heini yn yr awyr agored - cerdded/garddio, gwell mynediad i lwybrau cyhoeddus, cyfleusterau ailgylchu haws<br>• Dysgu sgiliau newydd/hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli - prosiectau amgylcheddol e.e. cynlluniau gwylio adar, glanhau traethau, codi 'sbwriel, garddio cymunedol, gwirfoddoli i helpu rheoli safleoedd bywyd gwyllt. | • Parhau i weithredu Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd ac annog y genhedlaeth hŷn i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i fyw bywyd llawn ac annibynnol |

# Plant a Chefnogi Teuluoedd

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu yn 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | • Plant yn cael budd o chwarae allan mewn lleiniau glas - hyrwyddo mannau diogel yn ein hamgylchedd naturiol i blant gael chwarae<br>• Annog cyfranogiad mewn prosiectau cymunedol e.e. gerddi cymunedol, glanhau traethau, cynlluniau lleihau/ail-ddefnyddio/ailgylchu<br>• Hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored i blant e.e. cerdded, dringo, beicio<br>• Gostwng ôl-troed carbon mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus e.e. teithio, ynni/eiddo, 'sbwriel | • Parhau i gynnwys hyrwyddo defnydd o'r amgylchedd naturiol fel ffordd o sicrhau iechyd a lles ein plant. |

## Economi a Chymuned

| **Amcan Cynllun Adfer Natur** | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu yn 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | • Hyrwyddo Addysg Awyr Agored / Amgylcheddol<br>• Cefnogi Prosiectau Cymunedol sy'n derbyn cymorth grant sydd hefyd o fudd i'r amgylchedd naturiol<br>• Cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ac egnïol mewn ysgolion ac yn y gymuned i blant a phobl ifanc<br>• Hyrwyddo Busnesau Gwyrdd ble fo'n bosib<br>• Hyrwyddo Twristiaeth Werdd ble fo'n bosib | • Hyrwyddo Addysg Awyr Agored / Amgylcheddol<br>• Cefnogi Prosiectau Cymunedol sy'n derbyn cymorth grant sydd hefyd o fudd i'r amgylchedd naturiol<br>• Cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ac egnïol mewn ysgolion ac yn y gymuned i blant a phobl ifanc<br>• Hyrwyddo Busnesau Gwyrdd ble fo'n bosib<br>• Hyrwyddo Twristiaeth Werdd ble fo'n bosib |

## Economi a Chymuned

## Uned Forwrol a Pharciau Gwledig

| **Amcan Cynllun Adfer Natur** | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 2 Cynllun Adfer Natur: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli** | • Mae Rheoli Parciau Gwledig a thraethau yn cynnwys cynnal a gwella bioamrywiaeth lleol | • Parhau i gynnal a gwella bioamrywiaeth ym Mharciau Gwledig a thraethau Gwynedd |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## Prosiect Trefi Taclus

| **Amcan Cynllun Adfer Natur** | **Camau Blaenorol/Cyfredol** | **Camau Gweithredu yn 2017-19** |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | Gweithgareddau Craidd:<br>• Glanhau cymunedol i fynd i'r afael gyda thipio slei bach<br>• Baw cŵn<br>• Sioe Deithiol Amgylcheddol | Gweithgareddau Craidd:<br>• Glanhau cymunedol i fynd i'r afael gyda thipio slei bach<br>• Baw cŵn<br>• Sioe Deithiol Amgylcheddol |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## Uned Wastraff ac Ailgylchu

| **Amcan Cynllun Adfer Natur** | **Camau Blaenorol/Cyfredol** | **Camau Gweithredu yn 2017-19** |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | Datrys materion gwastraff:<br>• Ailgylchu o ochr y ffordd<br>• Casgliadau gwastraff bwyd<br>• Casglu Clytiau o ochr y ffordd<br>• Casglu clytiau go iawn<br>• Ailgylchu tecstilau<br>• Prosiect symudol codi ymwybyddiaeth | Parhau gyda datrys materion gwastraff:<br>• Ailgylchu o ochr y ffordd<br>• Casgliadau gwastraff bwyd<br>• Casglu Clytiau o ochr y ffordd<br>• Casglu clytiau go iawn<br>• Ailgylchu tecstilau<br>• Prosiect symudol codi ymwybyddiaeth |

## Yr Amgylchedd

## Uned Eiddo

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu yn 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | Rheoli/Gweinyddu ffermydd gyda thenantiaid sy'n eiddo i'r Cyngor | • Sicrhau fod tenantiaid fferm yn rheoli eu gwrychoedd a'u coed yn briodol<br>• Annog tenantiaid fferm i gymryd rhan mewn cynlluniau Amaeth-amgylchedd<br>• Sicrhau fod tenantiaid fferm yn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da i Warchod Dŵr, Pridd a'r Awyr yng Nghymru 2011, i leihau risg llygredd |

## Yr Amgylchedd

## Uned Trafnidiaeth Integredig,

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu yn 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | • Cynllun Partneriaeth Statudol Ansawdd Bysiau (SQBP) - mae Sherpa'r Wyddfa yn darparu gwasanaeth cludiant cyhoeddus o ansawdd uchel, sy'n ceisio lleihau effaith amgylcheddol efo bysiau newydd gydag allyriadau is ar hyd coridor ymwelwyr allweddol. | • Bydd y Cynllun SQBP yn parhau tan 2021<br>• Cyhoeddi Map Rhwydwaith Teithio Llesol fydd ar gael i'r cyhoedd<br>• Gwella cyfleusterau a llwybrau yn barhaus i gerddwyr a beicwyr<br>• Asesu'r llwybrau cerdded a beicio arfaethedig newydd i |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cynllun Teithio Llesol wedi'i fabwysiadu i Wynedd sy'n cynnwys cynnal a gwella llwybrau aml-ddefnydd i feicwyr a cherddwyr<br>• Cynllun Teithio Gwyrdd Gwynedd i staff - llogi beiciau yn rhad ac am ddim am 12 mis gyda'r opsiwn i brynu, cynllun rhannu car, Cynllun Ceir Gwyrdd | Wynedd |

## Yr Amgylchedd

## Tîm Bioamrywiaeth

| Ardal Gwasanaeth | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu yn 2017-19 |
|---|---|---|
| Tîm Bioamrywiaeth, Yr Amgylchedd<br>**Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel** | • Darparu cyngor amgylcheddol ar holl faterion bioamrywiaeth i Gyngor Gwynedd<br>• Wedi sefydlu Natur Gwynedd/Partneriaeth LBAP<br>• Gweithgareddau blynyddol i godi ymwybyddiaeth<br>• Cyflwyniadau/sgyrsiau i grwpiau/ysgolion/clybia u<br>• Darparu hyfforddiant Rheoli Datblygu - Rhywogaethau a Warchodir dan Gyfraith Ewrop a Safleoedd Ewropeaidd | • Sicrhau parhad cyngor arbenigol mewnol ar ecoleg a choed<br>• Parhau i weithio gyda chyrff Partneriaeth ar brosiectau ar y cyd<br>• Parhau i ddarparu diweddariadau/codi ymwybyddiaeth gyda Rheoli Datblygu ar ddeddfwriaeth amgylcheddol |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan 2 Cynllun Adfer Natur: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli** | • Rhestr Flaenorol Blaenoriaethau Rhywogaethau Cymru yn cynnwys Adran 42 o Ddeddf ANCHG) 2006 a ddefnyddiwyd i ddarparu seiliau i LBAP Gwynedd (Natur Gwynedd 2004)<br>• Prosiectau cadwraeth ariennir gan grant ar sail camau gweithredu o Gynllun Natur Gwynedd (LBAP) | • Defnyddio Adran 7 Rhestr Rhywogaethau Deddf yr Amgylchedd i adolygu'r rhywogaethau blaenoriaeth presennol a restrir yn Natur Gwynedd a'r gwaith Rheoli Datblygu<br>• Ble fo'n bosib, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth lleol |
| Tîm Bioamrywiaeth, Yr Amgylchedd<br>**Amcan 3: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd** | • Safleoedd Prosiect Pryfed Peillio<br>• Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd<br>• Cyngor arbenigol ar fioamrywiaeth a choed wedi ei ddarparu gan y Tîm Bioamrywiaeth i Reoli Datblygu<br>• Darparodd Swyddog Coed Cymru Gwynedd gyngor i berchnogion tir i warchod, defnyddio a gwella adnodd coetir Cymru. Drwy gefnogaeth gwaith ymchwil a blaengaredd, arloeswyd gydag ystod o brosiectau i wella arferion rheoli tir ac i ychwanegu gwerth i'r pren. Daeth y swydd i ben yn 2014<br>• SPG Drafft Bioamrywiaeth wedi ei greu i'r CDLl | • Ble fo'n bosib, cymryd rhan mewn prosiectau cenedlaethol ar gynefinoedd a rhywogaethau<br>• Cwblhau Canllaw Cynllunio Atodol i Fioamrywiaeth i'r CDLl<br>•<br>• Creu Canllaw Cynllunio Atodol newydd ar goed i'r CDLl<br>• Gweithio gyda Swyddog newydd Coed Cymru a leolir yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Haf 2017) ar brosiectau ar y cyd. |
| Tîm Bioamrywiaeth, Yr Amgylchedd **Amcan 2 Cynllun Adfer Natur: Diogelu'r** | • Rhestr Flaenorol Blaenoriaethau Rhywogaethau Cymru yn cynnwys Adran 42 o Ddeddf ANCHG) 2006 a ddefnyddiwyd i | • Defnyddio Adran 7 Rhestr Rhywogaethau Deddf yr Amgylchedd i adolygu'r rhywogaethau blaenoriaeth presennol a restrir yn Natur Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| **rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli** | ddarparu seiliau i LBAP Gwynedd (Natur Gwynedd 2004)<br>• Prosiectau cadwraeth ariennir gan grant ar sail camau gweithredu o Gynllun Natur Gwynedd (LBAP) | a'r gwaith Rheoli Datblygu<br>• Ble fo'n bosib, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth lleol |
| Tîm Bioamrywiaeth, Yr Amgylchedd<br><br>**Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Tîm Bioamrywiaeth yn darparu cyngor ar reoli rhywogaethau ymledol<br>• Fel perchennog tir, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyngor Gwynedd reoli rhywogaethau ymledol fel Llysiau'r Dial<br>• Mentrau gan ACA PLAS i fynd i'r afael gyda rhywogaethau morol ymledol e.e. Cranc Manegog Tseiniaidd<br>• Amodau yn cael eu gosod ar Ganiatâd Cynllunio i sicrhau rheolaeth planhigion ymledol | • Parhau i ddarparu cyngor ar rywogaethau ymledol |
| Tîm Bioamrywiaeth, Yr Amgylchedd<br><br>**Amcan 5 Cynllun Adfer Natur: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro** | • Cymryd rhan mewn arolygon lleol a chenedlaethol e.e. llygod pengrwn y dŵr, dyfrgwn, capiau cwyr, Trochydd mawr<br>• Mae data rhywogaethau yn cael ei drosglwyddo i Cofnod (Canolfan Cofnodion Lleol gogledd Cymru) | • Ble fo'n bosib parhau i gymryd rhan mewn gwaith arolygon a chodi ymwybyddiaeth |
| Tîm Bioamrywiaeth, Yr Amgylchedd<br><br>**Amcan 6 Cynllun Adfer Natur: Sefydlu fframwaith** | • Ar hyn o bryd mae gan y Tîm Bioamrywiaeth 2 x Ecolegydd rhan amser, 1 x Swyddog Coed Dros Dro Rhan-amser, 1 x Swyddog ACA Llawn | • Sicrhau bod capasiti digonol yn y Tîm Bioamrywiaeth i gydymffurfio gyda'n Dyletswydd Bioamrywiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| **llywodraethu a chymorth i'w chyflenwi** | Amser, 1 Swyddog Prosiect Llawn Amser | |

## Yr Amgylchedd

# Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS)

| Ardal Gwasanaeth | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 2 Cynllun Adfer Natur: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli** | • Adolygu a gweithredu Cynllun Rheoli ACA PLAS<br>• Ceisio arian grant ar gyfer gweithredu cadwraeth e.e. Morwellt Porthdinllaen, Prosiect Morfa Gwyllt, Cadw golwg ar Ddolffiniaid<br>• Ceisio arbenigedd morol gan Swyddog ACA PLAS ar gyfer ymgynghoriadau Cynllunio a Pholisi | • Cynllun Rheoli ACA PLAS yn cael ei adolygu a'i weithredu yn barhaus<br>• Ceisio arian grant ar gyfer gweithredu cadwraeth e.e. Morwellt Porthdinllaen, Prosiect Morfa Gwyllt, Cadw golwg ar Ddolffiniaid<br>• Treialu prosiect dalgylch integredig yn Llŷn<br>• Ceisio arbenigedd morol gan Swyddog ACA PLAS ar gyfer ymgynghoriadau Cynllunio a Pholisi |
| **Amcan 2 Cynllun Adfer Natur: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli** | • Mae'r Prosiect Ecosystem Morol yn treialu'r Dull Ecosystem yn Llŷn<br>• Cyflwynwyd Cod Ymddygiad i Wynedd - gan godi ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr cychod am fywyd gwyllt y môr, fel dolffiniaid<br>• Mae prosiect Pysgota | • Ceisio arian i barhau i weithredu'r Dull Ecosystem yn Llŷn<br>• Parhau i gyflwyno'r Cod Ymddygiad ar draws Cymru<br>• Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno prosiect Pysgota am Sbwriel mewn trefi eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | am Sbwriel yn cael ei dreialu yng Nghricieth drwy ostwng y sbwriel yn yr amgylchedd morol | |

## Yr Amgylchedd

# Uned Cefn Gwlad

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan 2 Cynllun Adfer Natur: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y cânt eu rheoli** | • Rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol<br>• Rheoli Llwybrau Hamdden (Lonydd Glas) sy'n cynnig llwybrau diogel i feicio a cherdded ond yng nghefn gwlad gyda bywyd gwyllt oddi amgylch.<br>• Llwybr Arfordir Gwynedd<br>• Partneriaeth Tirwedd Llŷn - gwarchod cynefinoedd Llŷn<br>• Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn | • Rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol<br>• Rheoli Llwybrau Hamdden (Lonydd Glas) sy'n cynnig llwybrau diogel i feicio a cherdded ond yng nghefn gwlad gyda bywyd gwyllt oddi amgylch.<br>• Llwybr Arfordir Gwynedd<br>• Partneriaeth Tirwedd Llŷn - gwarchod cynefinoedd Llŷn<br>• Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn |
| **Amcan 3 Cynllun Adfer Natur: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd** | • Arian wedi dod yn bennaf drwy Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i reoli safleoedd | • Adnabod arian i reoli safleoedd e.e. Grant Refeniw Sengl |

# Yr Amgylchedd

# Uned Rheoli Datblygu,

| Ardal Gwasanaeth | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 3 Cynllun Adfer Natur: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd** | • Ceisio cyngor mewnol arbenigol ar ecoleg a choed ar holl faterion cynllunio<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Cynefinoedd yn eu lle ac yn cael eu gweithredu | • Parhau i sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Cynefinoedd digonol yn eu lle ac yn cael eu gweithredu<br>• Gweithio gyda'r Tîm Bioamrywiaeth, cyflwyno ystod o welliannau dewisol syml y gall Ymgeiswyr Cynllunio eu hymgorffori yn eu datblygiadau. Byddai hyn yn helpu i fodloni'r elfen 'gwella' ychwanegol o'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth. |
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Mae'r holl Gynlluniau a Datblygiadau Cynllunio yn cael eu sgrinio gan y Tîm Bioamrywiaeth i weld os oes unrhyw effeithiau andwyol i'r amgylchedd. Gall effeithiau amgylcheddol sylweddol olygu gwrthod cais cynllunio oni bai y gellid lliniaru'r effeithiau yn ddigonol<br>• Mae proses Gorchymyn Cadw Coed yn diogelu coed a choetir sy'n bwysig am eu gwerth mwynderol a bioamrywiaeth<br>• Cytundeb Gwasanaeth Lleol rhwng Cofnod a Chynllunio - mae'r holl | • Mae'r holl Gynlluniau a Datblygiadau Cynllunio perthnasol yn cael eu sgrinio gan y Tîm Bioamrywiaeth rhag unrhyw effeithiau andwyol i'r amgylchedd. Gall effeithiau amgylcheddol sylweddol olygu gwrthod cais cynllunio oni bai y gellid lliniaru'r effeithiau yn ddigonol<br>• Mae proses Gorchymyn Cadw Coed yn diogelu coed a choetir sy'n bwysig am eu gwerth mwynderol a bioamrywiaeth<br>• Cytundeb Gwasanaeth Lleol rhwng Cofnod a |

| | | |
|---|---|---|
| | geisiadau cynllunio yn cael eu sgrinio gan Cofnod i weld a oes rhywogaeth/cynefinoedd arbennig | Chynllunio - mae'r holl geisiadau cynllunio yn cael eu sgrinio gan Cofnod i weld a oes rhywogaeth/cynefinoedd arbennig |

## Yr Amgylchedd

## Uned Polisi Cynllunio

| **Amcan Cynllun Adfer Natur** | **Camau Blaenorol/Cyfredol** | **Camau Gweithredu 2017-19** |
|---|---|---|
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDU) yn cynnwys Polisïau Amgylcheddol i warchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau lleol pwysig<br>• Ysgrifennwyd Canllawiau Cynllunio Atodol Natur Gwynedd gan y Tîm Bioamrywiaeth ac maent wedi eu cynnwys yn y CDU | • Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl) yng ngwanwyn 2017 ac mae'n cynnwys Polisïau Amgylcheddol newydd fydd yn gwarchod ac yn gwella cynefinoedd a rhywogaethau pwysig lleol<br>• Diweddaru Canllaw Cynllunio Atodol CDU ar Fioamrywiaeth a Chynllunio i CDLl Gwynedd |

# Yr Amgylchedd

# Uned Iechyd yr Amgylchedd,

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu Rheolaeth Ansawdd Aer Lleol (LAQM) drwy rwydwaith o leoliadau monitro tiwbiau tryledu mewn mannau sensitif. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro llwch (PM10) e.e. mewn eiddo sy'n agos at chwareli<br>• Mae goblygiadau ansawdd aer cynlluniau a phrosiectau yn cael eu hasesu'n llawn am eu heffeithiau posib ar gynefinoedd sensitif drwy'r broses ARhC | • Parhau i weithredu LAQM<br>• Parhau i asesu goblygiadau ansawdd awyr drwy'r broses Rheoli Datblygu |
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Parhau i asesu Tir wedi'i Halogi drwy'r broses Rheoli Datblygu. Mae llawer o safleoedd yn debygol o fod yn safleoedd tir llwyd (wedi eu datblygu o'r blaen) yn aml i ddefnydd masnachol neu ddiwydiannol. Gall mwyngloddio hanesyddol hefyd olygu fod peth halogi yn bresennol.<br>• Caiff tir sydd efallai yn 'dir wedi'i halogi' yn cael ei asesu i sicrhau nad oes risgiau annerbyniol i iechyd pobl/yr amgylchedd. Mae | • Parhau i reoli ac asesu tir wedi'i halogi |

| | | |
|---|---|---|
| | camau yn cael eu cymryd yn unol â'r ddeddfwriaeth<br>• Mae'n ofynnol fod diwydiannau yn cael trwydded i ymgymryd â gweithgareddau awdurdodedig dan LAPPC ac archwilir eiddo diwydiannol i weld os yw'n cydymffurfio drwy ystod o ddeddfwriaeth Gwarchod Amgylcheddol e.e. rheoli allyriadau, defnydd arfer gorau ac offer.<br>• Bydd camau gorfodaeth yn cael eu cymryd yn erbyn diwydiannau ac eiddo preswyl e.e. gollyngiadau heb reolaeth i'r awyr | |

# Yr Amgylchedd

# Uned Cadwraeth Ynni

| Ardal Gwasanaeth | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Nod Cynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd 2015 (CMPI) oedd lleihau allyriadau CO2 a gynhyrchir gan weithgareddau ei ddarpariaeth gwasanaeth o 30% erbyn 2015. Cam cyntaf i sicrhau bod Gwynedd yn chwarae'i rhan i oresgyn effeithiau newid hinsawdd a sicrhau Sir gynaliadwy. | • Nod Cynllun Rheoli Carbon nesaf Cyngor Gwynedd (CMP2) yw cyrraedd gostyngiad uchelgeisiol o 60% erbyn 2021. Gosodwyd y targed yma i ymgyrraedd ato yn erbyn gwaelodlin 2005/06 drwy gyflawni gwelliannau parhaus i gwrdd â Thargedau Llywodraeth Cymru i allyriadau blynyddol C02 o 3%. |

## YGC/Ymgynghoriaeth

| Amcan Cynllun Adfer Natur | Camau Blaenorol/Cyfredol | Camau Gweithredu yn 2017-19 |
|---|---|---|
| **Amcan 4 Cynllun Adfer Natur: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd** | • Arwain ar Ganiatâd Cwrs dŵr arferol - ceisio cyngor ecolegol gan y Tîm Bioamrywiaeth<br>• Gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Arweiniol - defnyddio'r dull dalgylch/ecosystem i geisio datrys materion llifogydd<br>• Yn gyfrifol am Gynllun Rheoli'r Draethlin (yn cynnwys cynefinoedd a dynodiadau blaenoriaeth)<br>• Yn gyfrifol am gynnal a chadw a gwella pontydd - ystyried opsiynau gwella bioamrywiaeth e.e. blychau Bronwen y dŵr, gwelliannau i ddyfrgwn | • Arwain ar Ganiatâd Cwrs Dŵr arferol - ceisio cyngor ecolegol gan y Tîm Bioamrywiaeth<br>• Gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Arweiniol - defnyddio'r dull dalgylch/ecosystem i geisio datrys materion llifogydd<br>• Yn gyfrifol am Gynllun Rheoli'r Traethlin (yn cynnwys cynefinoedd a dynodiadau blaenoriaeth)<br>• Yn gyfrifol am gynnal a chadw a gwella pontydd - ystyried opsiynau gwella bioamrywiaeth e.e. blychau bronwen y dŵr, gwelliannau i ddyfrgwn |